WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2008-09

Medi 2009

**Awduron: Kevin Thomas ac Amanda Hughes** **Cyf: 5902009**

# Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu – Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu

## Cyngor Gwynedd

**Fersiwn drafft yw'r ddogfen hon tra bod trafodaethau pellach gyda'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid**

Fy mwriad fel yr Archwilydd Penodedig yw rhoi adroddiad Archwilydd diamod ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Mae gennyf bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar rai o' ch arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol | 6 |
| Gofynnir i chi wneud cywiriad i'r camddatganiad a nodwyd ac nas cywirwyd | 7 |
| Ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd | 7 |
| Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol gennyf | 8 |
| Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol i mi gyflwyno adroddiad arnynt i chi | 8 |
| Mae un mater o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arno | 8 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol | 10 |
| Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiad ariannol drafft | 14 |
| Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd | 18 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn gyfrifol am baratoi datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig sy'n rhoi darlun teg o'i sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009, a'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'n ofynnol i mi roi fy marn ar gywirdeb a thegwch y datganiadau.
2. Cyflwynodd y Cyngor Ddatganiad o Gyfrifon i mi ym mis Mehefin ac rwyf bellach wedi cwblhau'r archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i raddau helaeth. Ni cheisiaf gael sicrwydd llwyr bod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, na sicrwydd eu bod yn gywir ym mhob ffordd, ond yn hytrach mabwysiedir cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad o'r cyfrifon, ceisiaf nodi gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig hy, y gwallau hynny a allai gamarwain darllenwr.
3. Y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod gwallau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £3.353 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant ac eitemau ar y fantolen sy'n ymwneud â chyfalaf gweithio, a £5.407 miliwn ar gyfer eitemau eraill ar y fantolen. Nid materion meintiol yn unig sy'n penderfynu p'un a bernir bod eitem yn berthnasol, gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd gael effaith.
4. Gan fod yr archwiliad wedi'i gwblhau i raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion allweddol sy'n codi o'r archwiliad. Rhaid cyfleu'r materion hyn i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260, cyn rhoi barn ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Cytunir ar faterion manylach sy'n codi ac argymhellion gyda swyddogion.
5. Mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â'r materion canlynol cyn iddynt roi barn ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:
   - cydberthnasau a all ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
   - gwybodaeth am gynllunio archwiliad;
   - canfyddiadau'r archwiliad, yn cynnwys safbwyntiau'r archwilydd ar yr agweddau ansoddol ar waith cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau'r endid.
6. Cyflwynwyd adroddiad ar y ddau fater cyntaf i chi yn y Cynllun Rheoliadol. Paratowyd yr adroddiad hwn i gyflawni fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r trydydd pwynt. Mae fy nghanfyddiadau fel a ganlyn:
   - mae gennyf bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar rai o' ch arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol;
   - gofynnir i chi wneud cywiriad i'r camddatganiad a nodwyd ac nas cywirwyd;
   - ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd;
   - Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol gennyf;

- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt;
- mae un mater o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arno.

7. Fy mwriad yw cyflwyno adroddiad archwilydd heb ei addasu ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig pan fydd y Cyngor wedi rhoi'r Llythyr Cynrychiolaeth i mi fel y nodir yn Atodiad 1.

## Mae gennyf bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar rai o' ch arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol

8. Yn ystod yr archwiliad rwyf yn ystyried agweddau ansoddol ar y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Rwyf yn gwerthuso'r wybodaeth a ddarperir gan y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i benderfynu a yw'n berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn berthnasol ac yn hawdd ei deall.

9. Hoffwn dynnu'r materion canlynol at sylw'r Pwyllgor:

   - Mae FRS12 (Safon Adrodd Ariannol 12 - Darpariaethau, Rhwymedigaethau wrth Gefn ac  Asedau wrth Gefn) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei chydnabod pan fydd gan endid rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a lle y mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Mae gan y Cyngor rwymedigaeth mewn perthynas â chostau capio ac ôl-ofal safle gwaredu gwastraff Cilgwyn. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai £3.121 miliwn fydd y gost o gapio'r safle. Ar 31 Mawrth, roedd y Cyngor wedi gwario £456,000 ar y gwaith sy'n ofynnol i gapio'r safle, gan adael balans o £2.665 miliwn. Yn dilyn archwilio datganiadau ariannol 2007-08, neilltuodd y Cyngor £746,000 fel darpariaeth rannol ar gyfer y costau hyn. Er mwyn cydymffurfio â FRS12, dylai'r Cyngor fod wedi datblygu'r ddarpariaeth i'r swm llawn er mwyn cydnabod y rhwymedigaeth yn natganiadau ariannol 2008-09. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud hynny, ond mae wedi neilltuo adnoddau yn ei gyllideb gyfalaf ar gyfer 2008-09 a 2009-10 (£1.484 miliwn) ac ymrwymiadau ei gynllun rheoli asedau (£1.181 miliwn).
   - Fel yr adroddais yn flaenorol, dylai'r Cyngor gynnal ymarfer cadw tŷ i fynd i'r afael â'r materion canlynol:
     - balansau dyledwyr (£820,000) a chredydwyr (£478,000) sy'n ymwneud â'r cyn awdurdodau sydd bellach dros 13 oed;
     - balansau cyfrifon crog a chyfrifon grantiau personol amrywiol;
     - darpariaethau a neilltuwyd ar gyfer hawliadau yn erbyn cyn awdurdodau (£481,000);
     - balansau dyledwyr a nodwyd fel rhai na ellir eu hadennill.

     Nid yw llawer o'r balansau a grybwyllir uchod wedi newid ers sawl blwyddyn. Er i mi godi'r materion hyn dros nifer o flynyddoedd, nid yw'r Cyngor wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â hwy, a bellach mae angen rhoi sylw iddynt ar frys.
   - Fe roedd cynnydd y Cyngor o ran gweithredu ei gofrestr asedau sefydlog yn mwy araf na rhaglenni'r. Er y cydnabyddir y bu problemau â'r feddalwedd a'r gefnogaeth gan y cyflenwr, pryderaf fod yr amgylchedd rheoli, sy'n

ymwneud ag asedau sefydlog, yn wan o hyd o gymharu â systemau a meysydd cyfrifon eraill o ganlyniad i hyn.

- Mae Rheoliadau Adeiladau (Taliadau Awdurdodau Lleol) 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw Cyfrif Rheoli Adeiladu. Dros gyfnod o dair blynedd, ni ddylai'r incwm ar y cyfrif hwn fod yn llai na'r costau yr aed iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni'r gofyniad hwn am y tair blynedd ddiwethaf, ac oni bai fod y cyfrif yn sicrhau gwarged o tua £19,000 yn 2009-10, bydd yn methu â gwneud hynny eto yn 2009-10.

## Gofynnir i chi wneud cywiriad i'r camddatganiad a nodwyd ac nas cywirwyd

10. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd heblaw mân gamddatganiadau amlwg (diffinnir mân gamddatganiadau fel rhai sy'n hollol ddibwys, p'un ai'n unigol neu gyda'i gilydd, naill ai'n feintiol a/neu'n ansoddol). Ar sail fy methodoleg safonol, cyfrifiwyd mai'r terfyn ariannol ar gyfer yr hyn a ystyriaf yn fân gamddatganiad yw £100,000.

11. Gofynnir i chi wneud cywiriad i'r camddatganiad canlynol y mae'r rheolwyr wedi gwrthod eu cywiro.

| Natur y cywiriad arfaethedig | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Darparu £1.919 miliwn ychwanegol i dalu'r costau sy'n codi o hen rwymedigaeth mewn perthynas â'r costau capio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn. | Dylai'r Cyngor, wrth fod yn ddarbodus, fod wedi datblygu darpariaeth i ariannu ei rwymedigaeth i gapio safle Cilgwyn. Byddai hyn wedi darparu'r arian i dalu'r costau. Yn ogystal byddai'n cydymffurfio â gofynion FRS12. |

12. Os nad ydych yn barod i gywiro'r camddatganiad hyn, gofynnir i chi ysgrifennu ataf yn amlinellu'ch rhesymau dros beidio â gwneud y cywiriad hyn.

## Ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd

13. Cyflwynaf adroddiad ar unrhyw addasiadau arfaethedig i adroddiad safonol yr archwilydd (Atodiad 3) i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr addasiadau a'ch bod yn cael cyfle i roi rhagor o wybodaeth ac esboniadau mewn perthynas â'r mater(ion) sy'n achosi'r addasiad. Mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau ar y canlynol:

    - a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2009 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
    - mae'r Datganiad Rheolaeth Blynyddol yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'm gwybodaeth a'm dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor.

14. Ar sail fy ngwaith archwilio, ni nodwyd unrhyw faterion a fyddai'n gofyn am unrhyw addasiad i'r farn archwilio.

## Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol gennyf

15. Diffinnir gwendid perthnasol mewn rheolaeth fewnol gan ISA 260 fel diffyg o ran cynllunio neu weithredu a allai effeithio'n andwyol ar allu'r endid i gofnodi, prosesu, crynhoi a chyflwyno adroddiadau ar ddata ariannol a data perthnasol arall sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol.

16. Fodd bynnag, nid wyf fel arfer yn cyflwyno adroddiad i chi ar wendid perthnasol yr ydych yn ymwybodol ohono, ac y cymerwyd camau priodol i'w gywiro, oni bai bod y gwendid yn arwydd o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol a bod risg y gallai gwendidau perthnasol eraill godi.

17. Dylech fod yn ymwybodol nad wyf yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau a allai fodoli yn y rheolaethau mewnol nac o'r holl welliannau y gellir eu gwneud, ond dim ond y materion hynny sydd wedi dod i'm sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yr wyf wedi mynd i'r afael â hwy.

18. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol gennyf.

## Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol i mi gyflwyno adroddiad arnynt i chi

19. Mae safonau archwilio eraill yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyfathrebu â chi mewn amgylchiadau penodol eraill, gan gynnwys:
    - os wyf yn amau neu'n canfod twyll, hyd yn oed os nad yw'r effaith bosibl yn berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, oni chaf fy ngwahardd rhag gwneud hynny o dan reoliadau gwyngalchu arian;
    - os yw datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig y Cyngor a gwybodaeth arall yn y Datganiad o Gyfrifon yn anghyson.

20. Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad arnynt i chi.

## Mae un mater o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arno

21. Mae'n ofynnol i mi hefyd gyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion archwilio sylweddol o ddiddordeb llywodraethu er mwyn eich galluogi i gymryd camau priodol.

22. Fel y bydd Aelodau yn gwybod, mae mater parhaus sy'n ymwneud â buddsoddiadau a gedwir gan yr Awdurdod mewn pedwar o fanciau Gwlad yr Iâ a aeth i'r wal ym mis Hydref yn 2008. O ganlyniad, roedd angen i'r Awdurdod

ystyried i ba raddau y mae'r digwyddiadau hyn wedi lleihau gwerth yr adneuon hyn ar gyfer ei gyfrifon yn 2008/09.

23. Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau yn gynharach eleni yn amlinellu'r sefyllfa ddisgwyliedig o ran adferiad, ac mae pob corff y sector cyhoeddus yr effeithiwyd arno gan fethiant y banciau wedi defnyddio'r canllawiau hyn, a nododd datganiad cyfrifon drafft yr Awdurdod yr addasiad lleihad mewn gwerth hwn yn gywir.

24. Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau diwygiedig ar ddechrau mis Medi yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran adferiad tebygol. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r wybodaeth ddiwygiedig hon ac wedi cyfrifo y byddai effaith y newid yn lleihau gwerth yr adneuon £35,000 ymhellach (a mae £5,000 yn mewn perthynas Cronfa Pensiwn). Gan nad yw'r swm hwn yn berthnasol ac y gallai newid ni wnaed diwygiad arall i'r datganiad cyfrifon.

Atodiad 1

# Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

28 Medi 2009

Annwyl Mr Barrett,

**DATGANIAD O GYFRIFON 2008/2009 CYNGOR GWYNEDD**

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 er mwyn mynegi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg, ym mhob agwedd berthnasol, o sefyllfa ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009 ac o ganlyniadau ei weithrediadau a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2008.

**Sylwadau cyffredinol**

Adlewyrchwyd yr holl drafodion a gynhaliwyd gan y Cyngor yn briodol yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u cofnodwyd yn briodol ynddynt hefyd.

Nid oes unrhyw brosiectau cyllideb cyfun yn deillio o unrhyw gytundebau partneriaeth y cytunwyd arnynt o dan Adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999, cyfranogion, mentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw am y rhai a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â phob amod a osodwyd gan sefydliadau perthnasol sy'n talu grantiau a gall ddisgwyl, yn rhesymol, y symiau grant a gynhwysir yn y cyfrifon.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â phob agwedd ar y cytundebau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i addasu'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig neu ddatgelu'r manylion ynddynt.

Nid oes yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau.

Sicrhawyd bod pob llyfr cyfrifon a dogfen ategol a chofnodion pob cyfarfod y Cyngor ar gael i chi.

Nid oes gan y Cyngor gynlluniau na bwriadau a allai newid yn berthnasol werth cario neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r dulliau mesur, gan gynnwys y rhagdybiaethau cysylltiedig, a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg yn briodol ac wedi eu cymhwyso'n gyson. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â gwerthoedd teg yn gyflawn ac yn briodol.

Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau cyfrifyddu cyfan.

**Asedau**

**Cyffredinol**

Roedd yr holl asedau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Cyngor, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys pob ased diriaethol sy'n eiddo i'r Cyngor.

**Asedau sefydlog**

Cyfalefir pob ased sydd dros y lefel deminimis. Cânt eu hailbrisio bob pum mlynedd drwy raglen dreigl. Hefyd, adolygwyd gwerth asedau eleni ar gyfer lleihad mewn gwerth yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol ac adlewyrchwyd unrhyw leihad mewn gwerth o'r fath yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny. Cyfrifir dibrisiad er mwyn lleihau swm llyfr net pob ased i'w werth gweddillol amcangyfrifedig erbyn diwedd tybiedig ei oes fuddiol yng ngweithrediadau'r Cyngor.

**Buddsoddiadau**

Roedd yr holl fuddsoddiadau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Cyngor, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys pob buddsoddiad diriaethol sy'n eiddo i'r Cyngor. Adolygwyd buddsoddiadau'r Cyngor, gan gynnwys y rhai ym Manc Heritable (yng Ngwlad yr Iâ) ar gyfer lleihad mewn gwerth ac adlewyrchwyd unrhyw leihad mewn gwerth o'r fath yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny.

**Asedau cyfredol**

O'u gwireddu yn ystod gweithrediadau arferol y Cyngor disgwylir i'r asedau cyfredol eraill ar y fantolen gynhyrchu o leiaf cymaint ag y datgenir ar eu cyfer. Gwnaed darpariaeth ddigonol yn erbyn pob swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac y gwyddys ei fod, neu y gellir disgwyl y bydd, yn anadenilladwy.

Ni cheir unrhyw drefniadau balans digolledu ffurfiol nac anffurfiol gydag unrhyw rai o'n cyfrifon arian parod na buddsoddi.

**Rhwymedigaethau**

**Cyffredinol**

Mae pob rhwymedigaeth wirioneddol a rhwymedigaeth wrth gefn wedi ei chofnodi a'i datgelu fel y bo'n briodol, yn ogystal â phob gwarant yr ydym wedi ei rhoi i drydydd partïon.

Nid oes ymgyfreitha yn yr arfaeth a all beri colled sylweddol i'r Cyngor, ac nad yw wedi ei ddatgelu yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, naill ai fel rhwymedigaethau cyfredol neu rwymedigaethau wrth gefn.

Mae pob rhwymedigaeth o dan brydlesi cyllidol neu gontractau hurbwrcas wedi ei datgelu yn y cyfrifon.

Ystyriwyd pob budd nas cyllidwyd wrth grynhoi ffigurau FRS 17 a gynhwyswyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Cilgwyn – FRS 12**

Mae’r archwiliwr yn ystyried nad ydym wedi cydsynio efo gofynion FRS 12 mewn perthynas â safle gwaredu gwastraff Cilgwyn, ac felly bod hyn wedyn wedi arwain at “gamddatganiad” sydd angen i mi ei egluro.

Fe ddaeth gweithgareddau ar safle Cilgwyn, a weithredwyd yn flaenorol gan Gwmni Gwastraff Môn Arfon, i ben yn Rhagfyr 2008, gyda’r angen wedyn am waith cau (capio) ac adfer.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnwys adnoddau cyllidol yn ei rhaglen gwariant cyfalaf i ariannu’r gwaith fel a ganlyn:

2006/07 - £100,000

2007/08 - £450,000

2008/09 - £610,000

2009/10 - £500,000

Gyda £1,181,000 pellach wedi ei adnabod o fewn cynllun rheoli asedau drafft yr Awdurdod, mae hyn yn gwneud cyfanswm o £2,841,000. Mae’r gwaith yma wedi’i raglennu i’w gwblhau yn 2010/11.

Tydi’r gwaith ar gau (capio) terfynol ddim wedi ei raglennu tan 2025/26, gyda chost, amcangyfrifir yn gyfredol i fod yn £985,000. Mae’r Cyngor wedi gwneud darpariaeth o £746,000 tuag at waith pellach sydd ei angen ar safle Cilgwyn, ac fe ystyrir hyn i fod yn sefyllfa resymol ar yr amser yma.

**Canlyniadau**

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu i drafodion o fath nas cynhelir fel arfer gan y Cyngor, nac amgylchiadau eithriadol neu anghylchol, effeithio'n berthnasol ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

**Rheolaeth fewnol**

Cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau. Ni fu:

- afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr y mae ganddynt rolau pwysig yn y system rheolaeth cyfrifyddu fewnol;
- afreoleidd-dra yn ymwneud â chyflogeion eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- gohebiaeth gan asiantaethau rheoliadol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio neu ddiffygion o ran arferion cyflwyno adroddiadau ariannol a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

**Digwyddiadau ôl-fantolen**

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu newidiadau perthnasol ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar rwymedigaethau ac ymrwymiadau, ac ni fu digwyddiadau na thrafodion sydd, er eu bod wedi eu heithrio'n briodol o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, yn ddigon pwysig fel y dylent fod wedi cael eu dwyn i sylw'r archwilydd.

**Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn deg yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol priodol.

Cydnabyddwn ein cydgyfrifoldeb am baratoi'r Datganiad Cyfrifon, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 28/09/2009.

Rydym wedi datgelu i chi bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid bod wedi ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid oes unrhyw drafodion perthnasol eraill â phartïon cysylltiedig (yn ôl diffiniad Safon Adrodd Ariannol 8 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir), heblaw am y rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb dros gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll, ac rydym wedi datgelu canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Rydym wedi datgelu wrthych yr hyn a wyddom am bob honiad o dwyll, neu dwyll a ddrwgdybir, yn effeithio ar ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig y Cyngor y cafodd y Cyngor wybod amdanynt gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.

Rydym wedi datgelu wrthych yr hyn a wyddom am dwyll neu dwyll a amheuir sy'n effeithio ar yr elusen yn ymwneud â'r canlynol:

- y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
- eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cadarnhawn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, y gwneir y sylwadau uchod ar sail ymholiadau gyda rheolwyr ac aelodau o staff sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol (a, lle bo hynny'n briodol, drwy arolygu dogfennaeth ategol) sy'n ddigon i'n bodloni y gallwn gyflwyno'n briodol bob un o'r sylwadau uchod i chi.

Yn gywir,

……………………………………………… ………………………………………………..

**CYNGHORYDD GWILYM WILLIAMS**
**CADEIRYDD PWYLLGOR ARCHWILIO**

**DAFYDD L EDWARDS**

**PENNAETH CYLLID**

Dyddiad …………………………….

Dyddiad …………………………….

Atodiad 2

## Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiadau ariannol drafft

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
| --- | --- |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant**<br>Ffigurau cymharol<br>Cynyddu'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd £165,000<br>lleihau'r Cyfrif Refeniw Tai £165,000 | I gyfuno'r Cyfrif Refeniw Tai yn gywir yn y prif Gyfrif Incwm a Gwariant |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant**<br>Cynyddu Gwasanaeth Amgylcheddol a Rheoleiddio £348,000<br>**Nodyn 19 – Asedau Sefydlog**<br>Cynyddu amhariad ar Tir ac Adeiladau £348,000<br>Fe wnaeth addasiadau cyfatebol i'r balans ar y Datganiad o'r Symudiadau ar Gronfa'r Cyngor, Y Fantolen, Datganiad Llif Arian ar Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | I cydnabod yr amhariad o gwariant cyfalaf o symud gwastraff Gloddfa Glai i Faengoch. |
| **Datganiad o'r Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig**<br>Lleihau'r diffyg sy'n codi o ailbrisio'r asedau ariannol gwerth £1.203 miliwn sydd ar gael i'w gwerthu<br>Cynyddu'r gwireddiad o'r ennill nas gwireddwyd yn flaenorol £1.203 miliwn | I ddatgelu'r gwireddiad o ennill nas gwireddwyd yn flaenorol yn gywir. |
| **Y Fantolen**<br>Cynyddu Arian mewn llaw £9.695 miliwn<br>Lleihau Buddsoddiadau Tymor Byr £9.695 miliwn<br>Gwnaed addasiadau cyfatebol i'r Datganiad Llif Arian Parod a'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | I ddatgelu arian parod yn gywir ar adneuon sy'n ad-daladwy ar orchymyn fel arian parod |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| **Y Fantolen**<br>Troednodyn wedi eu ychwanegu i esbonio y trefniadau bancio ar y cyd rhwng y Cyngor ar Gronfa Bensiwn.<br>Adroddiant wedi eu ychwanegu i Nodyn 23 - Buddsoddiadau | • I adlewyrchu'r 'sylwedd dros ddull' o'r trefniadau bancio sylfaenol a weithredir gan y Cyngor. Mae trefniadau bancio'r Cyngor yn cronni balansau a gedwir yng nghyfrifon banc y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, sy'n caniatáu i adneuon byrdymor mwy manteisiol gael eu gwneud pan fydd arian ar gael. Ar 31 Mawrth 2009, roedd y Cyngor gyda gorddrafft o £25.428 miliwn, ac roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau byrdymor o £63.647 miliwn. Nodwyd y balansau hyn yn y cyfrifon drafft. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth roedd gan gyfrif banc y Gronfa Bensiwn gredyd o £23.616 miliwn, ac roedd y ffaith bod gan y Cyngor y buddsoddiadau byrdymor o £63.647 miliwn yn rhannol o ganlyniad i'r arian hwn. Felly, yn y bôn, y gwir sefyllfa yw bod £23.616 miliwn o fuddsoddiadau'r Cyngor yn fuddsoddiadau a ddelir ar ran y Gronfa Bensiwn mewn gwirionedd. |
| **Datganiad Llif Arian**<br>Cynyddu gwerthiant Asedau Sefydlog gan £49,000 i £3.640 miliwn | I adlewyrchu yn gywir yr enillion o gwerthu asedau sefydlog yn y datganiad llif arian |
| **Nodyn 1 Addasiadau Blwyddyn Blaenorol**<br>Adroddiant wedi eu ychwanegu i esbonio y newidiadau, yn ychwanegol Troednodyn wedi ei ychwanegu i'r nodiadau perthnasol i esbonio bod y ffigyrau cymharol wedi eu addasu. | I egluro natur addasiadau'r flwyddyn flaenorol |
| **Nodyn 10 – Trafodion Sylweddol Gyda Phartïon Cysylltiedig**<br>Cynyddu buddiannau'r Prif Swyddog gan £173,490 i £794,465 | I ddatgelu gwerth llawn trafodion â phartïon cysylltiedig yn gywir |
| **Nodyn 11 – Sefyllfa'r Unedau Masnachol**<br>Ychwanegwyd ffigurau cymharol 2007/2008 | I ddarparu ffigurau cymharol |
| **Nodyn 18 – Ffioedd Archwilio**<br>Lleihau'r Ffi Archwilio Safonol gan £5,275 i £255,670<br>Cynyddu Ffioedd Arolygu Statudol gan £3, 274 i £83,300 | I adlewyrchu'r ffioedd archwilio yn unol â Chynllun Rheoliadol 2008-09 |
| **Nodyn 19 – Asedau Sefydlog**<br>Cynyddu Lleihad mewn gwerth Anheddau'r Cyngor £11.701 miliwn<br>Lleihau Ailbrisiad Anheddau'r Cyngor £11.701 miliwn | I adlewyrchu'r gwahaniad rhwng lleihad mewn gwerth ac ailbrisiad Asedau Sefydlog y Cyngor yn gywir |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| **Nodyn 19 – Asedau Sefydlog**<br>Lleihau Isadeiladwaith £107,000<br>Cynyddu Asedau yn cael eu Adeiladu £107,000 | I categoreiddio gwariant hyd at hyn ar capio safle gwaredu gwastraff fel Asedau yn cael eu adeiladu tan mae'r prosiect cyfalaf wedi eu cwblhau |
| **Nodyn 19 – Asedau Sefydlog**<br>Ychwanegwyd troednodyn i ddatgelu gwariant ar Ysgolion Eglwysig | I gydymffurfio â'r gofynion datgelu |
| **Nodyn 22 – Offerynnau Ariannol**<br>Ffigyrau cymharol 2007/2008 am Dyledwyr a Chredydwyr wedi newid i adlewyrchu addasiadau y flwyddyn blaenorol | I sicrhau bod nodyn Offerynnau Ariannol yn cytuno i'r Fantolen |
| **Nodyn 23 – Buddsoddiadau**<br>Cynyddu Buddsoddiadau Tymor Hir £2.270 miliwn<br>Lleihau Buddsoddiadau Tymor Byr £2.270 miliwn<br>Addasiadau cyfatebol wedi eu wneud i'r Fantolen, Datganiad Llif Arian ar Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd. | I adlewyrchu fod rhan o adferiad buddsoddiad Heritable Bank yn ddyledus ar ôl blwyddyn |
| **Nodyn 23 – Buddsoddiadau**<br>Adroddiant wedi ychwanegu i esbonio o le mae cost amhariad wedi eu dalu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. | I esbonio yn glir lle mae cost yr amhariad wedi eu adlewyrchu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. |
| **Nodyn 24 – Arian mewn Llaw ac Gorddrafft Banc**<br>Nodyn newydd wedi ychwanegu | I dadansoddi y balans arian a banc o'r Cyngor |
| **Nodyn 25 – Dyledwyr**<br>Cynyddu'r Dyledwyr sy'n Ddyledus ar ôl blwyddyn £1.321 miliwn<br>Lleihau'r Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn £1.321 miliwn<br>Gwnaed addasiadau cyfatebol i'r Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | I adlewyrchu oedran dyledwr sy'n ymwneud â Throsglwyddo'r Stoc Dai yn gywir |
| **Nodyn 25 – Dyledwyr**<br>Lleihau Adrannau'r Llywodraeth £9.047 miliwn<br>**Nodyn 26 – Credydwyr**<br>Lleihau Adrannau'r Llywodraeth £9.047 miliwn<br>Gwnaed addasiadau cyfatebol i'r Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | I glirio balansau dyledwyr a chredydwyr sy'n ymwneud â'r Asiantaeth Cefnffyrdd |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
| --- | --- |
| **Nodyn 26 – Credydwyr**<br>Cynyddu taliadau Ebrill a Mai ar gyfer nwyddau a dderbyniwyd neu waith a wnaed cyn 31 Mawrth 2009 £11.513 miliwn<br>Lleihau Credydwyr Amrywiol Eraill £11.513 miliwn | I gywiro camddosbarthiad balans credydwr |
| **Nodyn 26 – Credydwyr**<br>Lleihau Adrannau'r Llywodraeth £490,000<br>**Nodyn 27 – Grantiau Cyfalaf heb ei Defnyddio (nodyn newydd)**<br>Cynyddu Grantiau Cyfalaf heb ei Defnyddio £490,000<br>Addasiadau cyfatebol wedi eu wneud i'r Fantolen, Datganiad Llif Arian ar Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd. | I categoreiddio yn glir grantiau cyfalaf wedi eu dderbyn ond ddim wedi ei rhyddhau ar wahân |
| **Nodyn 28 – Benthyciadau**<br>Cynyddu Gwerth Teg Benthyciad Banc Barclays - LOBO - £1.059 miliwn | I ddatgan gwerth teg y benthyciad yn gywir |
| **Y Cyfrif Refeniw Tai – Nodyn 8**<br>Ychwanegwyd troednodyn i ddarparu datgeliad ychwanegol parthed pensiynau a chost gwasanaeth y gorffennol. | I gydymffurfio â'r gofynion datgelu |
| Diwygiadau amrywiol i'r geiriad a chroesgyfeiriadau i'r nodiadau | I gywiro mân wallau yn y geiriad a sicrhau bod y croesgyfeiriadau yn gywir |

Atodiad 3

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd**;**
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Symud ar Falans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian Parod, Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai. Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyngor Gwynedd yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir ym mharagraff 46 o'r *Datganiad o gyfrifoldebau archwilwyr a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i arolygwyr, a'r cyrff a archwilir ac a arolygir ganddynt (2008) a* baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Nodir cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice* yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynaf adroddiad i chi ar fy marn o ran p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu, a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o'r canlynol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*:

- sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn;
- trafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Adolygaf p'un a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf fi yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried a yw'r Datganiad Llywodraethu yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheolaeth.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol yn unig**.** Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol a'r gronfa bensiwn, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gynnal er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2009 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn **i** mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, yn unol â'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*.

**Casgliad ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau**

Cyflwynir fy nghasgliad o ran trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ar wahân yn Llythyr Blynyddol cyhoeddedig y Rheolwr Cydberthynas.

**Tystysgrif cwblhau**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni ellir cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol a rhoi tystysgrif archwilio nes bod ymholiadau sy'n deillio o fater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi'u cwblhau'n ffurfiol. Rwyf yn fodlon na fydd y swm, sy'n destun yr ymholiadau, yn cael effaith berthnasol ar y datganiad o gyfrifon.

| | |
|---|---|
| **Archwilydd Penodedig:** | Anthony Barrett |
| **Cyfeiriad:** | Swyddfa Archwilio Cymru<br>Uned 4, Evolution<br>Pentref Busnes Lakeside<br>Parc Dewi Sant<br>Ewloe<br>CH5 3XP |
| **Dyddiad:** | 29 Medi 2009 |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk